**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **13 Gorffennaf 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid**

**Awdur yr Adroddiad:** **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Datganiad Drafft o Gyfrifon 2015/16**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Darparu trosolwg o'r Datganiad drafft o Gyfrifon 2015/16 a'r broses sy'n sail iddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb wedi’i ddirprwyo iddo i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a fydd yn cael eu cyflwyno ar 28 Medi 2016. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (copi i ddilyn fel Atodiad 1).

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi datganiad cyfrifon sy’n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae’n rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo’n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cyfrifon drafft bellach wedi eu cwblhau ac wedi’u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 21 Mehefin. Roedd y cyfrifon drafft ar gael i’w harchwilio yn ôl y gofyn a byddan nhw hefyd ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio rhwng 11 Gorffennaf tan 5 Awst.

O ystyried rôl y Pwyllgor o ran cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, mae’n fanteisiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg ar y cam drafft i'w ystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae’n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau’r Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Caiff gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, megis yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu cyfrifon yn gadarn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai'r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na byddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.